| GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHIO MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG | |
|---|---|
| **141 - Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Ymadael â’r UE) 2019**<br>*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 22 Gorffennaf 2019* | |
| **Sifftio** | |
| A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU? | Na fydd |
| Gweithdrefn: | Amherthnasol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amherthnasol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amherthnasol |
| Y dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amherthnasol |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 32 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd ei fod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Papur 28 |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amherthnasol |
| Gweithdrefn | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | 10 Medi 2019 |

**Sylwadau**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ymadael â'r UE) 2019 a Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid, Iechyd Planhigion, Hadau a Thatws Hadyd (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019. Mae'r diwygiadau'n sicrhau bod Atodlenni 1 i 6 i Reoliadau Iechyd Planhigion (Ymadael â'r UE) 2019 yn cael eu diweddaru i adlewyrchu deddfwriaeth ddiweddar yr UE a deddfwriaeth ddiweddar cenedlaethol fel bod mesurau amddiffynnol sy'n deillio o'r UE yn erbyn cyflwyno a lledaenu organebau sy'n niweidiol i blanhigion neu gynhyrchion planhigion sydd ar waith yn union cyn y diwrnod gadael yn parhau i fod yn effeithiol ac yn weithredol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn dileu cyfeiriadau at rwymedigaethau'r UE o adrannau 2(1) a 3(1) o Ddeddf Iechyd Planhigion 1967.
Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 26 Gorffennaf 2019 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.
Mae'r crynodeb uchod a chynnwys Memorandwm Esboniadol y Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.